OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2737

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2009

## RHAN 5

GRANTIAU AT GOSTAU BYW

### Grant cynhaliaeth — myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd nad ydynt yn fyfyrwyr carfan 2010

**38.**—(1) Uchafswm y grant cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd nad yw'n fyfyriwr carfan 2010 mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw—

(a) yn achos myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon, £1,453;

(b) yn achos myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon, £2,906;

(c) yn achos myfyriwr math 3 ar gwrs hyfforddi athrawon, £1,453; ac

(ch) yn achos myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd ac eithrio myfyriwr math 1, math 2 neu fath 3 ar gwrs hyfforddi athrawon, £2,906.

(2) Mae myfyriwr math 1 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'n cael £1,453;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'n cael swm sy'n hafal i **M−(A/2)** pan fo **M** yn £1,453 ac **A** yn £1 am bob £5.86 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370; ac

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852, mae'n cael £644.

(3) Mae myfyriwr math 2 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'n cael £2,906;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'n cael swm sy'n hafal i **M−A** pan fo **M** yn £2,906 ac **A** yn £1 am bob £5.86 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370; ac

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852, mae'n cael £1,288.

(4) Mae myfyriwr math 3 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'n cael £1,453;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'n cael swm sy'n hafal i **M−(A/2)** pan fo **M** yn £1,453 ac **A** yn £1 am bob £5.86 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852 ond heb fod yn fwy na £39,329, mae'n cael swm sy'n hafal i **RM−(A/2)** pan fo **RM** yn £644 ac **A** yn £1 am bob £9.27 o incwm sydd uwchlaw £27,852;

(ch) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £39,329, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.

(5) Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd ac eithrio myfyriwr math 1, math 2 neu fath 3 ar gwrs hyfforddi athrawon sydd â hawl i gael grant cynhaliaeth mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'n cael £2,906;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £27,852, mae'n cael swm sy'n hafal i **M−A** pan fo **M** yn £2,906 ac **A** yn £1 am bob £5.86 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £27,852 ond heb fod yn fwy na £39,329, mae'n cael swm sy'n hafal i **RM−A** pan fo **RM** yn £1,288 ac **A** yn £1 am bob £9.27 cyflawn o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £27,852;

(ch) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £39,329, nid oes unrhyw grant cynhaliaeth yn daladwy.